


Prifysgol Abertawe
Swansea University

# ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

## 2024-2025

# Cynnwys


| Cynnwys |
| --- |
| **Croeso** |
| **Trosolwg o'r Brifysgol** |
| **Oedran** |
| **Anabledd** |
| **Ailbennu Rhywedd** |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** |
| **Hil** |
| **Crefydd a Chred** |
| **Rhyw** |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** |
| **Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb** |
| **Data Myfyrwyr** |
| **Poster a thudalen flaen Meithrin Ymwybyddiaeth** |
| **Atodiad 1 Cynnydd ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028** |

# Croeso

Yn rhinwedd fy rôl fel Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol - Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn (EDIB), mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol eleni, sy'n cyflwyno data cydraddoldeb Prifysgol Abertawe, am y cyfnod 2024/2025.

Er bod tirwedd addysg uwch yn esblygu'n barhaus, mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod yn flaenoriaethau craidd i'r Brifysgol. Mae ein cynnydd parhaus tuag at ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'r dystiolaeth gynyddol o egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hymgorffori ar draws holl agweddau ar fywyd y Brifysgol yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwnnw.

**Mae'r amcanion allweddol y cyflawnwyd yn ystod y cyfnod adrodd wedi cynnwys:**

**Gwreiddio cydraddoldeb mewn arferion recriwtio**

Rydym wedi parhau i gymryd camau gweithredu i chwalu'r rhwystrau i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y broses recriwtio drwy ddefnyddio camau gweithredu cadarnhaol, lle y bo'n briodol, o ganlyniad i hyn.

- Mae nifer yr ymgeiswyr ethnig leiafrifol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r bwlch rhwng cyfraddau llwyddo ymgeiswyr ethnig leiafrifol ac ymgeiswyr gwyn yn parhau i fod yn fawr, er ei fod wedi lleihau o 13.8% y llynedd i 9.7% eleni. Mae hyn yn arddangos llwybr cadarnhaol, ac mae adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn darganfod a yw hyn o ganlyniad uniongyrchol i adolygu ein proses recriwtio yn gyffredinol.
- Y gyfradd lwyddiant ar gyfer ymgeiswyr LHD+ eleni yw 12.4%, ac mae hyn yn parhau yn uwch na chyfradd lwyddiant ymgeiswyr heterorywiol, sef 8.9%
- Mae'r gyfradd lwyddiant ar gyfer menywod (11.5%) yn parhau'n uwch na chyfradd ymgeiswyr gwrywaidd (7.6%).
- Mae'r gyfradd lwyddiant ar gyfer ymgeiswyr anabl (14.7%) yn parhau'n uwch nag ymgeiswyr nad ydynt yn anabl (8.6%).

**Hyrwyddo cydraddoldeb hil**

- Mae Prifysgol Abertawe wedi cyflwyno cais am Farc Siarter Cydraddoldeb Hil Efydd gydag Advance HE ym mis Mawrth 2025. Sefydlwyd y tîm hunanasesu ac mae ganddo gynrychiolwyr o amrywiaeth eang o gydweithwyr a myfyrwyr â phrofiadau bywyd amrywiol. Disgwylir derbyn y canlyniad arfaethedig ar ddechrau mis Mai 2025.
- Gan fod 14.5% o'n cydweithwyr yn datgan eu bod yn dod o gefndir ethnig leiafrifol, rydym yn parhau i ragori ar feincnod Cymru, sef 11% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2024). Mae nifer y cydweithwyr ethnig leiafrifol wedi cynyddu 7.4% dros y 7 mlynedd diwethaf.
- Ar hyn o bryd, mae 26% o aelodau Cyngor y Brifysgol yn dod o gefndir ethnig leiafrifol, sy'n fwy na chanran cynrychiolaeth y gymuned leol a phoblogaeth y Brifysgol.
- Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaeth pedwar cydweithiwr ethnig leiafrifol gwblhau'r rhaglen Amrywio Arweinyddiaeth a oedd yn benodol i hil yn llwyddiannus, gyda'r nod o gefnogi dilyniant mwy o staff ethnig leiafrifol i rolau arweinyddiaeth.
- Prynwyd pecyn hyfforddiant ar-lein sy'n benodol i hil, ac mae bellach yn orfodol i staff ei gwblhau. Ei nod yw cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gydraddoldeb hil.

**Mynd i'r afael â'n bwlch cyflog rhwng y rhywiau.**

Unwaith eto, mae'r Brifysgol wedi atgyfnerthu ei hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau drwy gyhoeddi ein data am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar wefan Gov.UK.

- Ar hyn o bryd, mae ein bwlch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau yn 12.9%, sy'n lleihad o 7.9% dros y 6 mlynedd diwethaf, ac mae'n well na chyfartaledd y DU (13.7% - Adroddiad Ystadegol Addysgol Uwch Advance HE 2024).
- Ein cyfartaledd canolrif presennol yw 5.7%, sef cynnydd o 0.1% ers ein hadroddiad y llynedd a lleihad o 8.0% dros y 6 mlynedd diwethaf.
- Mae'n bleser nodi ein bod eisoes wedi cyflawni'r targed y gwnaethom ei bennu i ni ein hunain yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol (2020-2024) i leihau ein bwlch cyflog cyfartalog 2% erbyn 2024. Nod Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol (2024-2028) ar gyfer y 4 blynedd nesaf yw lleihad pellach o 2%, ac rydym yn bendant ar y trywydd cywir i gyflawni'r nod hwn.

**<u>Hybu cydraddoldeb LHDT+</u>**

- Mae Prifysgol Abertawe wedi cadw ei lle yn y 5ed safle yn Stonewall Workplace Equality Index (WEI), sef ein safle uchaf hyd yn hyd yn nhabl cynghrair cyflogwyr y DU.
- Rydym hefyd wedi cadw'r dyfarniad safon aur yn y Mynegai hwn, sy'n cydnabod ein bod wedi gwreiddio cydraddoldeb i bobl LHDT+ yn ein meysydd gwaith craidd a hynny ar y lefel uchaf. Mae'r Brifysgol a'n Rhwydwaith Staff LHDT+ wedi cydweithio i wneud Abertawe mor ystyriol â phosib yn ystod cyfnod anodd iawn i'r gymuned LHDTC+, ac mae'r safle gwell hwn ac yn bwysig, y ffaith ein bod wedi cadw'r dyfarniad aur, yn dangos ein bod yn gwneud gwahaniaeth.
- O ganlyniad i hynny, mae canran ein cydweithwyr LHD+, sef 6.1%, yn parhau i gynyddu ac mae'n dal i fod yn uwch na meincnod y DU, sef 5.8% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2024).

**<u>Cynyddu amlygrwydd ar lefel uwch</u>**

- Rydym wedi parhau i fonitro strwythur llywodraethu ein Cyngor ac ers mis Mawrth 2024, mae aelodau benywaidd yn cynrychioli 44% o'r Cyngor, o'i gymharu â 25% yn 2013.
- Mae 26% o aelodau'r Cyngor o gefndiroedd ethnig leiafrifol, sy'n well na chanran y cydweithwyr ledled y Brifysgol sydd o gefndiroedd ethnig leiafrifol, sef 14.5%.
- Rydym hefyd yn falch o adrodd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol, lle, erbyn hyn, mae 56% o'r aelodau'n fenywod. Mae gwaith yn parhau ar yr agwedd hon er mwyn cynyddu cynrychiolaeth gan aelodau o gefndiroedd ethnig leiafrifol.
- Mae arweinwyr EDI yn ein Hysgolion a'n Cyfadrannau yn parhau i gefnogi'r gwaith o wreiddio ystyriaethau EDI yng ngweithgarwch beunyddiol eu meysydd.

**<u>Dathlu amrywiaeth</u>**

Rydym wedi dathlu digwyddiadau amrywiol eleni eto, megis Diwrnod Cofio'r Holocost, Mis Hanes LHDT+, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Diwrnod Cofio Holocost y Roma, Mis Hanes Pobl Ddu, yn ogystal ag amrywiaeth o ddigwyddiadau rhyng-ffydd.

Trefnwyd llawer o'r dathliadau a'r digwyddiadau hyn mewn partneriaeth agos ac mewn cysylltiad ag Undeb y Myfyrwyr ac roeddent yn cynnwys cydweithwyr a myfyrwyr.

**<u>Gwella Cydraddoldeb Anabledd a Niwrowahaniaeth</u>**

Rydym wedi parhau i ddathlu gyda'n cydweithwyr ag anableddau a staff niwrowahanol, gan fyfyrio ar wythnos Niwroamrywiaeth a Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau. Fel Prifysgol, rydym wedi lansio Polisi Niwroamrywiaeth yn ddiweddar a fydd yn cefnogi ein staff niwrowahanol.

Yn dilyn adborth gan ein rhwydweithiau Anabledd a Niwroamrywiaeth i staff, mae cwestiynau cyffredin ynghylch addasiadau rhesymol wedi cael eu llunio, gyda'r nod o gynyddu dealltwriaeth staff am y broses.

**<u>Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb</u>**

**Cynhaliwyd asesiadau effaith ar gydraddoldeb yn ystod y cyfnod adrodd o 1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2025**

Ymysg y rhai a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd, cafwyd asesiadau effaith ar gydraddoldeb ar y canlynol:

Polisi Camymddygiad Rhywiol, Polisi Iechyd Meddwl, Polisi Mamolaeth Myfyrwyr, Gweithredu'r System Adrodd a Chymorth, Polisi Cyflog Cyfartal, Newidiadau Pensiwn USS 2024, Polisi Seiberddiogelwch a Diogelwch Gwybodaeth, Polisi Niwroamrywiaeth, Polisi Deallusrwydd Artiffisial ac Asesu.

**<u>Camau nesaf</u>**

Ar hyn o bryd, mae'r sector addysg uwch yn profi cyfnod o heriau a newidiadau sylweddol. Er hyn, mae ein hymrwymiad i wella a gwreiddio cydraddoldeb yn parhau i fod yn gadarn. Rydym yn cydnabod bod y cyfnodau heriol hyn yn golygu bod ein hymdrechion yn bwysicach fyth, a byddwn yn parhau i ysgogi arferion cynhwysol a chyflawni ein hamcanion cydraddoldeb. Drwy gydweithrediad, gwydnwch, ac ymdeimlad o bwrpas a rennir, ein nod yw sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud.

Er ei bod hi'n bwysig dathlu ein cyflawniadau niferus dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn ymwybodol bod angen ymdrech ddwys mewn meysydd eraill er mwyn parhau i wneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion Cydraddoldeb Strategol.

Un o'n blaenoriaethau allweddol parhaus yw gwella recriwtio, cadw a dilyniant cydweithwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol. Ar gyfer yr ail flwyddyn yn olynol, roedd y gyfran uchaf o geisiadau am swyddi yn y Brifysgol, 48.8%, gan gymunedau ethnig leiafrifol, gan amlygu'r diddordeb cynyddol mewn ymuno â’n sefydliad.

I gefnogi datblygiad gyrfaol, gwnaethon ni lansio'r Rhaglen Amrywio Arweinyddiaeth, sydd wedi cael ei llunio’n benodol i sicrhau bod gan staff ethnig leiafrifol y sgiliau, yr hyder a'r offer i fachu ar gyfleoedd arweinyddiaeth. Mae'r rhaglen eisoes wedi cael effaith ystyrlon, gyda chyfranogwyr yn dweud bod ganddynt fwy o hyder i ymgeisio am ddyrchafiad a rolau arweinyddiaeth.

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ehangu'r rhaglen drwy gyllido pedwar lle ychwanegol ar gyfer 2024/25. Mae'r buddsoddiad hwn yn adlewyrchu ein huchelgais ehangach i ddatblygu tîm arweinyddiaeth mwy cynhwysol, lle caiff amrywiaeth ei ddangos ar bob lefel.

Rydym hefyd yn cydnabod yr angen dybryd i gynyddu cynrychiolaeth gan gydweithwyr ethnig leiafrifol mewn swyddi uwch. I fynd i'r afael â hyn, rydym wedi dechrau rhoi ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil ar waith, sy'n amlinellu cyfres o gamau gweithredu penodol i gefnogi tegwch a dilyniant.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ond rhaid i ni symud ymlaen drwy fod yn rhagweithiol ac yn arloesol wrth gynnal gweithgareddau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a pharhau i annog mwy o fenywod i ymgeisio am rolau uwch.

Mae ein Huwch-dîm Arweinyddiaeth yn dal i fod yn ymrwymedig i wneud cynnydd ym mhob maes a nodwyd drwy ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r cydweithwyr a'r myfyrwyr sydd wedi cyfrannu at y cynnydd hwn. Mae eich ymroddiad a'ch mewnwelediad wedi bod yn allweddol wrth ysgogi newid ystyrlon. Gyda'n gilydd, rydym wedi adeiladu sylfeini cryf ar gyfer cymuned fwy cynhwysol a theg sy'n edrych tua'r dyfodol yn y Brifysgol.

Yr Athro Amira Guirguis, Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn

# Cipolwg ar ein Gweithlu o 3,770 (ffeithlun)

## Rhyw

| | | |
|---|---|---|
| Benyw | 55.2 | 2080 |
| Gwryw | 44.8 | 1690 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **3770** |

| **Gwasanaethau Proffesiynol** | % | **Academaidd** | % |
|---|---|---|---|
| Benyw | 62.7% | Benyw | 46.6% |
| Gwryw | 37.3% | Gwryw | 53.4% |

## Oedran Cyfartalog 43, **Dynion 44, Menywod 43**

## Anabledd

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn anabl | 85.8 % | 3234 |
| Yn anabl | 10.7% | 403 |
| Dewis peidio â dweud | 3.5% | 133 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **3770** |

## Crefydd

| | | |
|---|---|---|
| Dim crefydd | 45.3% | 1709 |
| Cristnogaeth | 26.0% | 980 |
| Dewis peidio â dweud | 21.1% | 796 |
| Islam | 2.4% | 90 |
| Ysbrydegaeth | 1.7% | 64 |
| Hindŵaidd | 1.2% | 45 |
| Crefydd neu gred arall | 1.1% | 42 |
| Bwdhaeth | 0.9% | 35 |
| Iddewiaeth | 0.1% | 5 |
| Siciaeth | 0.1% | 4 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **3770** |

## Priodas a Phartneriaeth Sifil

| | | |
|---|---|---|
| Yn briod | 46.0% | 1733 |
| Sengl | 28.7% | 1083 |
| Cyd-fyw | 12.2% | 459 |
| Dewis peidio â dweud | 8.0% | 301 |
| Wedi ysgaru | 2.1% | 80 |
| Arall | 1.1% | 40 |
| Wedi gwahanu | 0.9% | 33 |
| Partneriaeth Sifil | 0.8% | 30 |
| Gweddw | 0.3% | 11 |
| **Cyfanswm** | **100%** | 3770 |

## Ailbennu Rhywedd

| | | |
|---|---|---|
| Hunaniaeth rhywedd yr un peth | 85.3% | 3217 |
| Dewis peidio â dweud | 14.0% | 530 |
| Hunaniaeth rhywedd yn wahanol | 0.6% | 23 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **3770** |

## Absenoldeb Rhiant

| | | |
|---|---|---|
| Mamolaeth | 74.8% | 104 |
| Tadolaeth / Partner | 24.5% | 34 |
| Mabwysiadu | 0.7% | 1 |
| **Cyfanswm** | **100%** | 139 |

## Hil

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyn | | 82.6% | **3114** |
| Ethnig Leiafrifol | | 14.5% | **548** |
| | Asiaidd | 4.9% | 184 |
| | Arall | 4.0% | 152 |
| | Tsieineaidd | 2.8% | 105 |
| | Cymysg | 1.6% | 60 |
| | Du | 1.2% | 47 |
| Dewis peidio â dweud | | 2.8% | 105 |
| Ddim yn gwybod | | 0.1% | 3 |
| **Cyfanswm** | | **100%** | **3770** |

## Tueddfryd Rhywiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Heterorywiol | | 75.3% | **2837** |
| Dewis peidio â dweud | | 18.6% | **703** |
| LHD+ | | **6.1%** | **230** |
| | Deurywiol | 2.9% | 108 |
| | Hoyw | 1.7% | 63 |
| | Hoyw/Lesbiaidd | 0.9% | 35 |
| | Arall | 0.6% | 24 |
| **Cyfanswm** | | **100%** | **3770** |

| | |
|---|---|
| **Mae 'ddim yn gwybod' yn disgrifio unigolyn nad yw'n ymwybodol o'i ethnigrwydd | |

# Oedran

## Cyfansoddiad y Gweithlu 3770

| | | |
|---|---:|---:|
| 36 - 40 | 15.9% | 600 |
| 41 - 45 | 14.7% | 554 |
| 31 - 35 | 13.1% | 494 |
| 46 - 50 | 12.9% | 488 |
| 51 - 55 | 12.7% | 480 |
| 26 - 30 | 9.8% | 371 |
| 56 - 60 | 9.3% | 349 |
| 25 ac yn iau | 4.8% | 181 |
| 61 - 65 | 4.5% | 171 |
| 66+ | 2.2% | 82 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **3770** |

**Oedran cyfartalog 43**

Menywod = 43
Dynion = 44
Cyfartaledd = 43

## Cyfansoddiad y Gweithlu

Mae'r categorïau oedran a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â chategorïau amrediad oedran Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Mae oedran cyfartalog cydweithwyr benywaidd wedi cynyddu i 43 ac oedran cyfartalog cydweithwyr gwrywaidd wedi cynyddu i 44. Yr oedran cyfartalog cyffredinol yw 43 ac mae wedi aros yr un peth â'r llynedd.

Mae cyfansoddiad oedran ein staff yr un peth â'r llynedd. Staff rhwng 36 a 40 oed yw ein grŵp mwyaf o hyd, sef 15.9%.

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu rhwng 31 a 55 oed (69.3%) sy'n uwch na data meincnodi'r sector yn y DU (64.9%) a data meincnodi'r sector yng Nghymru (66.7%). Mae 14.6% o'r gweithlu'n 30 oed ac yn iau, sydd ychydig yn is na data meincnodi'r sector yn y DU (16.5%) ac yn uwch na data meincnodi'r sector yng Nghymru (13.9%) (Adroddiad Ystadegol Staff Advance HE 2024)

## Recriwtio

**Swyddi a hysbysebwyd= 55**
**Ceisiadau Fesul Oedran**

| | | |
|---|---:|---:|
| 25 ac yn iau | 24.6% | 2407 |
| 26 – 30 | 23.6% | 2311 |
| 31 – 35 | 16.9% | 1652 |
| 36 – 40 | 12.0% | 1177 |
| 41 – 45 | 8.6% | 839 |
| 46 – 50 | 5.4% | 525 |
| 51 – 55 | 3.8% | 374 |
| 56 – 60 | 2.8% | 278 |
| 61 – 65 | 1.4% | 134 |
| 66+ | 0.6% | 60 |
| Dewis peidio â dweud/Anhysbys | 0.2% | 16 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **9773** |

**Ceisiadau a dderbyniwyd = 9773**

## Recriwtio

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd (553) wedi gostwng ers y llynedd (749) ac mae hyn o ganlyniad i raglen cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol. Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi gostwng eleni (9773) o'i gymharu â'r nifer y llynedd (11304).

Roedd y ganran fwyaf o ymgeiswyr yn 25 oed ac yn iau (24.6% o'r holl geisiadau). Mae hyn yn uwch na'r ganran y llynedd, sef 19.0%.

Roedd 78% o'r holl ymgeiswyr yn 40 oed ac yn iau, sy'n dangos bod y rhan fwyaf o'n hymgeiswyr ychydig yn iau nag oedran cyfartalog ein gweithlu presennol.

## Cyfradd Lwyddiant Ymgeiswyr

**(yn eu grŵp eu hunain)**

| | | |
|---|---|---|
| **66+** | 16.7% | 10 |
| **25 ac yn iau** | 16.4% | 397 |
| **51 - 55** | 10.5% | 39 |
| **36 - 40** | 7.5% | 88 |
| **46 - 50** | 7.5% | 39 |
| **26 - 30** | 7.2% | 166 |
| **31 - 35** | 6.9% | 115 |
| **41 - 45** | 6.7% | 56 |
| **56 - 60** | 6.5% | 18 |
| **61 - 65** | 5.2% | 7 |
| **Cyfanswm** | **9.6%** | **935** |

**Cyfradd lwyddiant gyffredinol 9.6% (935)**

## Cyfradd lwyddiant ymgeiswyr

Mae cyfradd lwyddiant gyffredinol ymgeiswyr wedi gostwng o 11.7% i 9.6%.

Gellir esbonio'r gyfradd lwyddiant is eleni gan y nifer is o swyddi gwag (26% yn llai na'r llynedd) a'r nifer is o geisiadau a dderbyniwyd (14% yn llai na'r llynedd).

Yr ystod oedran â'r gyfradd lwyddiant fwyaf oedd yr ymgeiswyr 66 oed ac yn hŷn, sydd wedi gostwng i 16.7% o 30.9% y llynedd. Mae angen bod yn ofalus yma oherwydd y niferoedd bach.

Mae cyfradd lwyddiant y grwpiau oedran 25 oed ac yn iau, 26-30, 31-35, 56-60 a 61-65 oed hefyd wedi gostwng i 16.4%, 7.2%, 6.9%, 6.5% a 5.2% yn y drefn honno. Roedd pob categori oedran arall yn debyg i'r llynedd.

Yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd, cyflwynodd AD ddull recriwtio newydd ar sail CV ym mis Tachwedd 2023, a byddwn yn adolygu effaith y broses recriwtio hon y flwyddyn nesaf.

## Ymadawyr

| | | |
|---|---|---|
| **26 - 30** | 16.6% | 129 |
| **25 ac yn iau** | 16.4% | 128 |
| **31 - 35** | 14.9% | 116 |
| **41 - 45** | 10.5% | 82 |
| **36 - 40** | 10.4% | 81 |
| **56 - 60** | 10.0% | 78 |
| **61 - 65** | 6.5% | 51 |
| **46 - 50** | 5.6% | 44 |
| **51 - 55** | 5.5% | 43 |
| **66+** | 3.5% | 27 |
| **Cyfanswm** | **100 %** | **779** |

## Ymadawyr

Mae nifer yr ymadawyr wedi cynyddu ychydig, o 765 y llynedd i 779 eleni.

Mae cyfradd yr ymadawyr 25 oed ac yn iau wedi gostwng o 20.1% y llynedd i 16.4% eleni. Mae'r holl grwpiau o ymadawyr eraill yn debyg i'r llynedd. Mae'r canrannau uchaf o ymadawyr yn y grŵp 26-30 oed. Roedd gan 28% o'r grŵp 26-30 oed rolau fel gweithredwyr llinell gymorth Clirio, cynorthwywyr ymchwil, interniaid a SPIN (Partneriaeth Interniaethau â Thâl Abertawe), sydd i gyd yn benodiadau tymor byr.

Gwnaeth 23% o'r ymadawyr adael drwy'r cynllun Ymadael yn Gynnar yn Wirfoddol.

## Hyfforddiant

**Cyrsiau a ddarparwyd = 343**

## Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth.

| | | |
|---|---|---|
| **36 - 40** | 17.3% | 497 |

## Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth.

Mae nifer y cyrsiau mewn ystafell ddosbarth eleni (343) wedi gostwng yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r nifer y llynedd (430).

Mae nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth wedi gostwng eleni i 2875, o'i gymharu â'r nifer y llynedd (4493).

| | | |
|---|---|---|
| **41 - 45** | 15.5% | 445 |
| **46 - 50** | 14.5% | 416 |
| **51 - 55** | 14.2% | 407 |
| **31 - 35** | 13.9% | 400 |
| **26 - 30** | 9.9% | 286 |
| **56 - 60** | 8.1% | 233 |
| **25 ac yn iau** | 3.4% | 98 |
| **61 - 65** | 2.6% | 74 |
| **66+** | 0.7% | 19 |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **2875** |

Mae'r gostyngiad hwn yn nifer y cyfranogwyr mewn ystafell ddosbarth oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y cyrsiau ac ailgynllunio'r Gwasanaethau Proffesiynol.

Mae dosbarthiad oedran y cydweithwyr sy'n cwblhau hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth yn debyg yn fras i'r llynedd.

## Hyfforddiant Ar-lein

| | | |
|---|---|---|
| **26 - 30** | 21.7% | 1333 |
| **31 - 35** | 18.4% | 1130 |
| **25 ac yn iau** | 15.5% | 952 |
| **36 - 40** | 11.8% | 727 |
| **41 - 45** | 10.3% | 633 |
| **46 - 50** | 8.6% | 530 |
| **51 - 55** | 6.7% | 413 |
| **56 - 60** | 4.7% | 287 |
| **61 - 65** | 1.5% | 90 |
| **66+** | 0.7% | 41 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **6136** |

## Hyfforddiant Ar-lein

Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi gostwng ychydig i 6136 eleni, o'i gymharu â 6885 y llynedd.

Mae dosbarthiad oedran cydweithwyr a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein yn debyg yn fras i'r llynedd, ac eithrio'r rhai hynny yn y grŵp oedran 36-40 oed (-5.2%)

## Cwynion a Disgyblu

Mae'r data ar gyfer cwynion a disgyblu'n dangos nifer yr achosion a gofnodwyd yn ôl nodwedd gwarchodedig yr unigolyn.

**Cwynion**

| | | |
|---|---|---|
| 41 – 45 | 36.4% | 4 |
| 36 – 40 | 27.3% | 3 |
| 26 – 30 | 18.2% | 2 |
| 31 – 35 | 9.1% | 1 |
| 56 – 60 | 9.1% | 1 |
| **Cyfanswm** | 100% | **11** |

**Disgyblu**

| | | |
|---|---|---|
| 36 – 40 | 30.0% | 3 |
| 56 – 60 | 20.0% | 2 |
| 61 – 65 | 20.0% | 2 |
| 31 – 35 | 10.0% | 1 |
| 41 – 45 | 10.0% | 1 |
| 51 – 55 | 10.0% | 1 |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **10** |

## Cwynion a Disgyblu

Yn ystod y cyfnod adrodd eleni, cyflwynwyd 11 o gwynion a chynhaliwyd 10 achos disgyblu. Mae hyn yn cymharu ag 11 cwyn a 7 achos disgyblu a gynhaliwyd y llynedd.

O'r 11 cwyn, roedd ystod eang o grwpiau oedran, ond daeth y gyfran fwyaf o gwynion gan y grŵp oedran 41-45 oed (36%).

Mae nifer y cwynion eleni (11) yn debyg i'r nifer y llynedd (11)

Mae dosbarthiad oedran achosion disgyblu cydweithwyr yn debyg yn fras i'r llynedd.
O'r achosion disgyblu a gynhaliwyd, roedd 30% (3) o'r cydweithwyr rhwng 36 a 40 oed.

# Anabledd

## Cyfansoddiad y Gweithlu

| | | |
|---|---|---|
| **Ddim yn anabl** | 85.8 % | 3234 |
| **Anabl** | 10.7% | 403 |
| **Dewis peidio â dweud** | 3.5% | 133 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **3770** |

## Cyfansoddiad y Gweithlu

Nododd 10.7% o gydweithwyr fod ganddynt anabledd o'i chymharu â'r ganran y llynedd, sef 10.2% y llynedd. Mae hyn yn uwch na meincnod y sector yn y DU, sef 7.2% a meincnod y sector yng Nghymru, sef 5.9% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2024)

O'r cydweithwyr a ddatganodd anabledd, roedd gan 37% ohonynt anhawster dysgu penodol, megis dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D sydd wedi cynyddu 2% ers y llynedd. Y categorïau mwyaf nesaf yw'r 19% a ddatganodd gyflwr iechyd meddwl, sef yr un ganran â'r llynedd, a'r 13% a ddatganodd salwch neu gyflwr iechyd hirdymor sydd wedi gostwng 2% ers y llynedd.

## Recriwtio

**Swyddi a hysbysebwyd = 553**

**Ceisiadau fesul**

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn anabl | 83.6% | 8171 |
| Anabl | 12% | 1172 |
| Dewis peidio â dweud | 4.4% | 430 |
| | **100%** | **9773** |

**Ceisiadau a dderbyniwyd 9773**

## Recriwtio

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd (553) wedi gostwng ers y llynedd (749) ac mae hyn o ganlyniad i raglen cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol. Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi gostwng eleni (9773) o'i gymharu â'r nifer y llynedd (11304).

Mae nifer yr ymgeiswyr a ddatgelodd anabledd (12%) wedi cynyddu eleni o'i chymharu â'r ganran y llynedd (11.2%)

## Cyfradd Lwyddiant Ymgeiswyr

**(yn eu grŵp eu hunain)**

| | | |
|---|---|---|
| Anabl | 14.7% | 172 |
| Dewis peidio â dweud | 14.7% | 61 |
| Ddim yn anabl | 8.6% | 702 |
| **Cyfanswm** | **9.6%** | **935** |

**Cyfradd lwyddiant gyffredinol 9.6% (935)**

## Cyfradd lwyddiant ymgeiswyr

Mae cyfradd gyffredinol ymgeiswyr wedi gostwng o 11.7% y llynedd i 9.6%.

Gellir esbonio'r gyfradd lwyddiant is eleni gan y nifer is o swyddi gwag (26% yn llai na'r llynedd) a'r nifer llai o geisiadau a dderbyniwyd (14% yn llai na'r llynedd).

Cyfradd lwyddiant yr ymgeiswyr sy'n datgan anabledd yw 14.7%, sy'n uwch na chyfradd lwyddiant yr ymgeiswyr nad oes ganddynt anabledd, sef 8.6%.

Yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd, cyflwynodd AD ddull recriwtio newydd ar sail CV ym mis Tachwedd 2023, a byddwn yn adolygu effaith y broses recriwtio hon y flwyddyn nesaf.

## Ymadawyr

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn anabl | 81.9% | 638 |
| Anabl | 14.2% | 111 |
| Dewis peidio â dweud | 3.9% | 30 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **779** |

## Ymadawyr

Mae nifer yr ymadawyr wedi cynyddu ychydig, o 765 y llynedd i 779 eleni.

Mae cyfran yr ymadawyr a chanddynt anabledd, sef 14.2%, yn uwch na chanran cydweithwyr y Brifysgol a ddatganodd fod ganddynt anabledd, sef 10.7%. Roedd gan 31% o'r ymadawyr ag anabledd rolau gweithredwyr llinell gymorth Clirio, interniaethau neu rolau a oedd yn ymwneud ag ymchwil, sef penodiadau tymor byr.

## Hyfforddiant

## Cyrsiau a ddarparwyd = 343

## Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth.

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn anabl | 85.9% | 2469 |
| Anabl | 10.9% | 312 |
| Dewis peidio â dweud | 3.3% | 94 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **2875** |

## Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth

Mae nifer y cyrsiau mewn ystafell ddosbarth (343) wedi gostwng yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r nifer y llynedd (430).
Mae nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth wedi gostwng eleni i 2875, o'i gymharu â'r nifer y llynedd (4493).

Mae'r gostyngiad yn nifer y cyfranogwyr mewn ystafell ddosbarth o ganlyniad i sawl ffactor, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y cyrsiau ac ailgynllunio'r Gwasanaethau Proffesiynol.

O'r rhai hynny a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth, datganodd 10.9% fod ganddynt anabledd, sy'n debyg i ganran y cydweithwyr yn y Brifysgol sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd (10.7%).

## Hyfforddiant Ar-lein

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn anabl | 83.4% | 5115 |
| Anabl | 12.8% | 785 |
| Dewis peidio â dweud | 3.8% | 236 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **6136** |

## Hyfforddiant Ar-lein

Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi gostwng ychydig i 6136 eleni, o'i gymharu â 6885 y llynedd.

O'r rhai hynny a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth, datganodd 12.8% fod ganddynt anabledd, sy'n uwch na chanran y cydweithwyr yn y Brifysgol sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd (10.7%).

## Cwynion a Disgyblu

Mae'r data ar gyfer cwynion a disgyblu yn dangos nifer yr achosion a gofnodwyd yn ôl nodwedd warchodedig yr unigolyn.

**Cwynion**

## Cwynion a Disgyblu

Yn ystod y cyfnod adrodd eleni, cyflwynwyd 11 o gwynion a chynhaliwyd 10 achos disgyblu. Mae hyn yn cymharu ag 11 cwyn a 7 achos disgyblu a gynhaliwyd y llynedd.

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn anabl | 81.8% | 9 |
| Anabl | 18.2% | 2 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **11** |

**Disgyblu**

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn anabl | 80% | 8 |
| Anabl | 10% | 1 |
| Dewis peidio â dweud | 10% | 1 |
| **Cyfanswm** | **100%** | |

O'r cwynion, nododd 18% (2) fod anabledd ganddynt. Mae hyn yn uwch na chanran y staff sydd wedi rhannu bod ganddynt anabledd (10.7%), felly byddwn yn monitro'r ffigur hwn. Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hwn, oherwydd y niferoedd bach. Ni ddywedodd 82% (9) fod ganddynt anabledd.

O'r achosion disgyblu a gynhaliwyd, rhannodd 10% (1) fod ganddynt anabledd. Mae hyn yn is na chanran y staff sydd wedi rhannu bod ganddynt anabledd (10.7%).

# Ailbennu Rhywedd

## Cyfansoddiad y Gweithlu

| | | |
|---|---:|---:|
| Hunaniaeth rhywedd yr un peth | 85.3% | 3217 |
| Dewis peidio â dweud | 14.0% | 530 |
| Hunaniaeth rhywedd yn wahanol | 0.6% | 23 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **3770** |

## Cyfansoddiad y Gweithlu

Mae'r rhan fwyaf o gydweithwyr, sef 85.3%, yn uniaethu â'r un rhyw a gofrestrwyd adeg geni, sy'n debyg i'r ganran y llynedd.

Gostyngodd canran y cydweithwyr a ddewisodd beidio â dweud ychydig, o 14.9% y llynedd i 14% eleni, sy'n awgrymu cynnydd mewn hyder i ddatgelu gwybodaeth.

Canran y cydweithwyr sy'n uniaethu â rhywedd gwahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni yw 0.6%. Mae hyn 0.1% yn is na'r ganran a gofnodwyd y llynedd ac yn uwch na meincnod y DU, sef 0.3% (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2024)

## Recriwtio

**Swyddi a hysbysebwyd = 553**

## Ceisiadau fesul

| | | |
|---|---:|---:|
| Hunaniaeth rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni | 96.8% | 9462 |
| Dewis peidio â dweud | 1.8% | 180 |
| Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni | 1.4% | 133 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **9773** |

**Ceisiadau a dderbyniwyd 9773.**

## Recriwtio

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd (553) wedi gostwng ers y llynedd (749) ac mae hyn o ganlyniad i raglen cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol.

Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi gostwng eleni (9773) o'i gymharu â'r nifer y llynedd (11304).

Mae ymgeiswyr sy'n uniaethu â'r un rhyw ag a gofrestrwyd adeg geni yn debyg i'r ganran y llynedd (96.9%).

Mae canran yr ymgeiswyr sy’n nodi bod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni wedi cynyddu 0.3%, o 1.1% y llynedd i 1.4% eleni.

Mae'r rhai sy'n dewis peidio â dweud wedi gostwng 0.1% i 1.8%.

## Cyfradd Lwyddiant Ymgeiswyr

**(yn eu grŵp eu hunain)**

| | | |
|---|---:|---:|
| Dewis peidio â dweud | 11.7% | 19 |
| Hunaniaeth rhywedd yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni | 9.5% | 901 |
| Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni | 11.3% | 15 |
| **Cyfanswm** | **9.6%** | **935** |

Mae cyfradd lwyddiant gyffredinol ymgeiswyr wedi gostwng o 11.7% i 9.6%.

Gellir esbonio'r gyfradd lwyddiant is eleni gan y nifer is o swyddi gwag (26% yn llai na'r llynedd) a'r nifer llai o geisiadau a dderbyniwyd (14% yn llai na'r llynedd).

| | |
|---|---|
| **Cyfradd lwyddiant gyffredinol 9.6% (935)** | Mae cyfradd lwyddiant yr ymgeiswyr sy'n nodi bod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni (11.3%) yn uwch na chyfradd y rhai hynny sy'n nodi bod eu rhyw yr un peth â'r hyn a gofrestrwyd adeg geni. (9.5%)<br><br>Yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd, cyflwynodd AD ddull recriwtio newydd ar sail CV ym mis Tachwedd 2023, a byddwn yn adolygu effaith y broses recriwtio hon y flwyddyn nesaf. |

## Ymadawyr

| | | |
|---|---|---|
| Hunaniaeth rhywedd yr un peth | 90.0% | 701 |
| Dewis peidio â dweud | 9.0% | 70 |
| Hunaniaeth rhywedd wahanol | 1.0% | 8 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **779** |

## Ymadawyr

Mae nifer yr ymadawyr wedi cynyddu ychydig, o 765 y llynedd i 779 eleni.

Mae hunaniaeth rhywedd 90% o ymadawyr yr un peth â'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni. Mae hunaniaeth rhywedd 1.0% o ymadawyr yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni, sy'n is na chanran y cydweithwyr sydd gennym (0.6%).

## Hyfforddiant

Cyrsiau a ddarparwyd = 343

## Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth

| | | |
|---|---|---|
| Hunaniaeth rhywedd yr un peth | 89% | 2559 |
| Dewis peidio â dweud | 10.4% | 300 |
| Hunaniaeth rhywedd wahanol | 0.6% | 16 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **2875** |

## Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth.

Mae nifer y cyrsiau mewn ystafell ddosbarth (343) wedi gostwng yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r nifer y llynedd (430).

Mae nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth wedi gostwng eleni i 2875, o'i gymharu â'r nifer y llynedd (4493).

Mae'r gostyngiad yn nifer y cyfranogwyr sy'n astudio yn yr ystafell ddosbarth oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys gostyngiad mewn cyrsiau ac ailgynllunio Gwasanaethau Proffesiynol.

Mae canran y cyfranogwyr mewn ystafell ddosbarth sy'n nodi bod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'w rhyw a gofrestrwyd adeg geni (0.6%) ychydig yn llai na chanran y llynedd (0.8%) ac mae hyn yn debyg i ganran o gydweithwyr yn y Brifysgol sy'n uniaethu â'r categori hwn.

## Hyfforddiant Ar-lein

| | | |
|---|---|---|
| Hunaniaeth rhywedd yr un peth | 94.1% | 5774 |
| Dewis peidio â dweud | 5.4% | 330 |

## Hyfforddiant Ar-lein

Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi gostwng ychydig i 6136 eleni, o'i gymharu â 6885 y llynedd.

| | | |
|---|---|---|
| Hunaniaeth rhywedd wahanol | 0.5% | 32 |
| Cyfanswm | 100.0% | 6136 |

Mae cyfranogiad cydweithwyr y mae eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni wedi gostwng ychydig o 0.6% y llynedd i 0.5% eleni. Mae hyn yn gymharol i ganran y cydweithwyr sy'n uniaethu yn yr un ffordd yn y Brifysgol (0.6%).

## Cwynion a Disgybl

Mae'r data ar gyfer cwynion a disgyblu yn dangos nifer yr achosion a adroddwyd yn ôl nodwedd warchodedig yr unigolyn.

**Cwynion**

| | | |
|---|---|---|
| Hunaniaeth rhywedd yr un peth | 45% | 5 |
| Dewis peidio â dweud | 55% | 6 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **11** |

**Disgyblu**

| | | |
|---|---|---|
| Hunaniaeth rhywedd yr un peth | 80% | 8 |
| Dewis peidio â dweud | 20% | 2 |
| **Cyfanswm** | **100%** | |

## Cwynion a Disgyblu

Yn ystod y cyfnod adrodd eleni, cyflwynwyd 11 o gwynion a chynhaliwyd 10 achos disgyblu. Mae hyn yn cymharu ag 11 cwyn a 7 achos disgyblu a gynhaliwyd y llynedd.

O’r cwynion, nododd 45% (5) fod eu rhywedd yr un â’u rhyw adeg geni, a dewisodd 55% (6) beidio â dweud.

O ran yr achosion disgyblu a gynhaliwyd, nododd 80% (8) o gydweithwyr bod eu hunaniaeth rhywedd yr un peth â’u rhyw adeg geni, a dewisodd 20% (2) beidio â dweud.

# Priodas a Phartneriaeth Sifil

## Cyfansoddiad y Gweithlu

| | | |
|---|---|---|
| Yn briod | 46.0% | 1733 |
| Yn sengl | 28.7% | 1083 |
| Yn cyd-fyw | 12.2% | 459 |
| Dewis peidio â dweud | 8.0% | 301 |
| Wedi ysgaru | 2.1% | 80 |
| Arall | 1.1% | 40 |
| Wedi gwahanu | 0.9% | 33 |
| Partneriaeth Sifil | 0.8% | 30 |
| Yn weddw | 0.3% | 11 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **3770** |

## Cyfansoddiad y Gweithlu

Mae canran y cydweithwyr sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil yn debyg i'r llynedd.

## Recriwtio

**Swyddi a hysbysebwyd 553**

**Ceisiadau gan**

| | | |
|---|---|---|
| Yn sengl | 53.0% | 5177 |
| Yn briod | 29.3% | 2859 |
| Yn cyd-fyw | 8.1% | 795 |
| Dewis peidio â dweud | 4.5% | 436 |
| Wedi ysgaru | 2.1% | 202 |
| Arall | 1.1% | 112 |
| Partneriaeth Sifil | 1.0% | 102 |
| Wedi gwahanu | 0.7% | 73 |
| Yn weddw | 0.2% | 17 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **9773** |

## Recriwtio

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd (553) wedi gostwng ers y llynedd (749) ac mae hyn o ganlyniad i raglen cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol.

Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi gostwng eleni (9773) o'i gymharu â'r nifer y llynedd (11304).

Mae canran uwch o ymgeiswyr sy'n sengl o'i chymharu â'r llynedd a chanran is o ymgeiswyr sy'n briod o'i chymharu â'r llynedd. Mae nifer yr ymgeiswyr hynny sy'n cyd-fyw, wedi ysgaru, wedi gwahanu, mewn partneriaeth sifil neu'n weddw yn gymaradwy â'r llynedd.

Derbyniwyd y gyfran uchaf o geisiadau gan y rhai sy'n sengl (53%), ac yna ymgeiswyr priod (29.3%).

## Cyfradd Lwyddiant yr Ymgeisydd

**(Yn ei grŵp ei hun)**

| | | |
|---|---|---|
| Yn weddw | 17.6% | 3 |
| Arall | 15.2% | 17 |
| Dewis peidio â dweud | 14.5% | 61 |
| Yn cyd-fyw | 12.8% | 102 |
| Yn sngl | 10.1% | 524 |
| Yn briod | 7.1% | 204 |
| Partneriaeth Sifil | 6.9% | 7 |

## Cyfradd lwyddiant yr ymgeisydd

Mae cyfradd lwyddiant gyffredinol ymgeiswyr wedi gostwng o 11.7% i 9.6%.

Gellir esbonio'r gyfradd lwyddiant is eleni gan y nifer is o swyddi gwag (26% yn llai na'r llynedd) a'r nifer uwch o geisiadau a dderbyniwyd (14% yn fwy na'r llynedd).

| | | |
|---|---|---|
| Wedi ysgaru | 6.4% | 13 |
| Wedi gwahanu | 5.5% | 4 |
| **Cyfanswm** | **9.6%** | **935** |

**Cyfradd lwyddiant gyffredinol 9.6% 935)**

Mae'r gyfradd lwyddiant ar gyfer ymgeiswyr priod wedi gostwng 0.5%, o 7.6% y llynedd i 7.1% eleni. Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr mewn partneriaethau sifil wedi gostwng 5.3% hefyd, o 12.2% y llynedd i 6.9% eleni. Fodd bynnag, mae cyfradd lwyddiant pob categori wedi gostwng ac eithrio 'Dewis peidio â dweud' sy'n debyg i'r gyfradd y llynedd.

Yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd, cyflwynodd AD ddull recriwtio newydd ar sail CV ym mis Tachwedd 2023, a byddwn yn adolygu effaith y broses recriwtio hon y flwyddyn nesaf.

## Ymadawyr

| | | |
|---|---|---|
| Yn sengl | 40.4% | 315 |
| Yn briod | 34.4% | 268 |
| Yn cyd-fyw | 13.4% | 104 |
| Dewis peidio â dweud | 6.7% | 53 |
| Wedi ysgaru | 2.4% | 19 |
| Arall | 1.2% | 9 |
| Partneriaeth Sifil | 0.5% | 4 |
| Yn weddw | 0.5% | 4 |
| Wedi gwahanu | 0.4% | 3 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **779** |

## Ymadawyr

Mae nifer yr ymadawyr wedi cynyddu ychydig, o 765 y llynedd i 779 eleni.

Mae canran yr ymadawyr sy’n briod wedi cynyddu 2.2% o 32.2% y llynedd i 34.4% eleni ond mae'n dal i fod yn llawer is na chanran y cydweithwyr yn y Brifysgol sy'n briod (46%).

Mae canran y rhai hynny sy'n gadael sydd mewn partneriaeth sifil wedi gostwng 0.3% o 0.8% y llynedd i 0.5% eleni. Mae hyn yn is o'i chymharu â'r gronfa o gydweithwyr yn y Brifysgol sydd mewn partneriaeth sifil (0.8%).

## Hyfforddiant

**Cyrsiau a ddarparwyd = 343**

## Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth.

| | | |
|---|---|---|
| Yn briod | 48.1% | 1384 |
| Yn sengl | 27.8% | 798 |
| Yn cyd-fyw | 12.6% | 362 |
| Dewis peidio â dweud | 6.5% | 187 |
| Wedi ysgaru | 2.2% | 64 |
| Arall | 1.3% | 36 |
| Partneriaeth Sifil | 0.7% | 19 |
| Wedi gwahanu | 0.6% | 17 |
| Yn weddw | 0.3% | 8 |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **2875** |

## Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth.

Mae nifer y cyrsiau mewn ystafell ddosbarth (343) wedi gostwng yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r nifer y llynedd (430).

Mae nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth wedi gostwng eleni i 2875, o'i gymharu â'r nifer y llynedd (4493).

Mae'r gostyngiad yn nifer y cyfranogwyr sy'n astudio yn yr ystafell ddosbarth oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys gostyngiad mewn cyrsiau, ac ailgynllunio Gwasanaethau Proffesiynol.

Mae canran y cydweithwyr priod (48.1%) a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth yn uwch na'r llynedd (43.8%) ac yn gymharol â chanran y cydweithwyr priod yn y Brifysgol (46%).

Mae canran y cydweithwyr mewn partneriaeth sifil (0.7%) a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein ychydig yn is na'r llynedd (0.7%) ac yn gymesur â chanran y cydweithwyr mewn partneriaeth sifil yn y Brifysgol (0.8%).

## Hyfforddiant Ar-lein

| | | |
|---|---|---|
| Yn sengl | 38.7% | 2374 |
| Yn briod | 34.6% | 2124 |
| Yn cyd-fyw | 13.3% | 815 |
| Dewis peidio â dweud | 7.8% | 479 |
| Arall | 1.6% | 98 |
| Wedi ysgaru | 2.0% | 125 |
| Partneriaeth Sifil | 1.0% | 64 |
| Wedi gwahanu | 0.8% | 51 |
| Yn weddw | 0.1% | 6 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **6136** |

## Hyfforddiant Ar-lein

Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi gostwng ychydig i 6136 eleni, o'i gymharu â 6885 y llynedd.

Mae canran y cydweithwyr priod (34.6%) a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein yn uwch na'r llynedd (32.6%) ac yn is na chanran y cydweithwyr priod yn y Brifysgol (46%).

Mae canran y cydweithwyr mewn partneriaeth sifil (1.0%) a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein ychydig yn is na'r llynedd (1.3%) ac yn gymesur â chanran y cydweithwyr mewn partneriaeth sifil yn y Brifysgol (0.8%).

## Cwynion a Disgyblu

Mae'r data ar gyfer cwynion a disgyblu yn dangos nifer yr achosion a adroddwyd yn ôl nodwedd warchodedig yr unigolyn.

## Cwynion

| | | |
|---|---|---|
| Yn briod | 55% | 6 |
| Dewis peidio â dweud | 27% | 3 |
| Yn cyd-fyw | 18% | 2 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **11** |

## Disgyblu

| | | |
|---|---|---|
| Yn briod | 60% | 6 |
| Dewis peidio â dweud | 20% | 2 |
| Yn sengl | 10% | 1 |
| Wedi ysgaru | 10% | 1 |
| **Cyfanswm** | **100%** | |

## Cwynion a Disgyblu

Yn ystod y cyfnod adrodd eleni, cyflwynwyd 11 o gwynion a chynhaliwyd 10 achos disgyblu. Mae hyn yn cymharu ag 11 cwyn a 7 achos disgyblu a gynhaliwyd y llynedd.

O'r cwynion, roedd 55% (6) yn briod, dewisodd 27% (3) beidio â dweud ac roedd 18% (2) yn cyd-fyw.

O ran yr achosion disgyblu a gynhaliwyd, roedd 60% (6) yn briod, roedd 20% (2) yn well ganddynt beidio â dweud, roedd 10% (1) yn sengl a 10% (1) wedi ysgaru.

# Beichiogrwydd a Mamolaeth

## Cyfansoddiad y Gweithlu

| | | |
|---|---|---|
| Mabwysiadu | 0.7% | 1 |
| Mamolaeth | 74.8% | 104 |
| Tadolaeth/Partner | 24.5% | 34 |
| **Cyfanswm** | 100% | 139 |

## Cyfansoddiad y Gweithlu

Cymerodd 104 o gydweithwyr (74.8% o'r bobl a fu'n absennol am resymau teuluol) absenoldeb mamolaeth yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hyn ychydig yn is na'r llynedd.

Cymerodd 34 o gydweithwyr (24.5%) absenoldeb tadolaeth/partner yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hyn ychydig yn uwch na'r llynedd a chymerodd 1 cydweithiwr (0.7%) absenoldeb mabwysiadu yn ystod y cyfnod adrodd; mae hyn yn gymharol â'r llynedd.

Yn gyffredinol, cymerodd 3.7% o gydweithwyr (139) gyfnod o absenoldeb rhiant yn ystod y cyfnod adrodd, sy'n debyg i'r llynedd (3.7%).

## Recriwtio

**Swyddi a hysbysebwyd 553**

**Ceisiadau gan**

| | | |
|---|---|---|
| Dim absenoldeb rhiant wedi'i gymryd | 96.0% | 9379 |
| Dewis peidio â dweud | 2.7% | 265 |
| Absenoldeb Mamolaeth | 1.1% | 103 |
| Cyfnod tadolaeth ychwanegol (mwy na 2 wythnos) | 0.2% | 24 |
| Absenoldeb Mabwysiadu | 0.0% | 2 |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **9773** |

**Ceisiadau a dderbyniwyd= 9773**

## Recriwtio

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd (553) wedi gostwng ers y llynedd (749) ac mae hyn o ganlyniad i raglen cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol.

Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi gostwng eleni (9773) o'i gymharu â'r nifer y llynedd (11304).

Cyflwynwyd 1.3% o'r ceisiadau gan unigolion a oedd wedi cymryd rhyw fath o absenoldeb rhiant, sy'n llai na'r llynedd (1.7%)

## Cyfradd Lwyddiant yr Ymgeisydd

**(Yn ei grŵp ei hun)**

| | | |
|---|---|---|
| Absenoldeb Mamolaeth | 9.7% | 10 |
| Ni chymerwyd absenoldeb rhiant | 9.7% | 909 |
| Dewis peidio â dweud | 6.0% | 15 |

## Cyfradd lwyddiant yr ymgeisydd

Mae cyfradd lwyddiant gyffredinol ymgeiswyr wedi gostwng o 11.7% i 9.6%.

Gellir esbonio'r gyfradd lwyddiant is eleni gan y nifer is o swyddi gwag (26% yn llai na'r llynedd) a'r nifer uwch o geisiadau a dderbyniwyd (14% yn llai na'r llynedd).

| | | |
|---|---|---|
| Cyfnod tadolaeth ychwanegol (mwy na 2 wythnos) | 4.2% | 1 |
| Absenoldeb mabwysiadu | 0.0% | 0 |
| **Cyfanswm** | **9.6%** | **935** |

**Cyfradd lwyddiant gyffredinol 9.6% (935)**

Roedd cyfradd lwyddiant unigolion a oedd wedi cael cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn ystod y cyfnod adrodd (9.7%) yr un peth â'r rhai hynny nad oeddent wedi cael absenoldeb rhiant (9.7%). Mae cyfradd lwyddiant y rhai hynny a oedd wedi cael cyfnod o absenoldeb mamolaeth wedi gostwng ychydig, 0.2% ers y llynedd (9.9%).

Yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd, cyflwynodd AD ddull recriwtio newydd ar sail CV ym mis Tachwedd 2023, a byddwn yn adolygu effaith y broses recriwtio hon y flwyddyn nesaf.

## Ymadawyr

| | | |
|---|---|---|
| Dim absenoldeb rhiant | 97.3% | 758 |
| Absenoldeb Rhiant | 2.7% | 21 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **779** |

## Ymadawyr

Mae nifer yr ymadawyr wedi cynyddu ychydig, o 765 y llynedd i 779 eleni.

Roedd 2.7% (21) o’r rhai hynny a adawodd wedi cymryd cyfnod o absenoldeb teuluol yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn llai na chyfanswm y cydweithwyr sydd wedi cymryd absenoldeb rhiant yn y cyfnod adrodd (3.7%).

## Hyfforddiant

Cyrsiau a ddarparwyd = 343

## Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth

| | | |
|---|---|---|
| Dim absenoldeb rhiant | 98.2% | 2822 |
| Absenoldeb Rhiant | 1.8% | 53 |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **2875** |

## Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth.

Mae nifer y cyrsiau mewn ystafell ddosbarth (343) wedi gostwng yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r nifer y llynedd (430).

Mae nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth wedi gostwng eleni i 2875, o'i gymharu â'r nifer y llynedd (4493).

Mae'r gostyngiad yn nifer y cyfranogwyr sy'n astudio yn yr ystafell ddosbarth oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys gostyngiad mewn cyrsiau, ac ailgynllunio Gwasanaethau Proffesiynol.

Roedd 1.8% o'r cydweithwyr a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein wedi cymryd cyfnod o absenoldeb rhiant yn ystod y cyfnod adrodd.

## Hyfforddiant Ar-lein

| | | |
|---|---|---|
| Dim absenoldeb rhiant | 98.7% | 6059 |
| Absenoldeb Rhiant | 1.3% | 77 |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **6136** |

## Hyfforddiant Ar-lein

Mae nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant ar-lein wedi gostwng ychydig i 6136 eleni, o'i gymharu â 6885 y llynedd.

Roedd 1.3% o'r cydweithwyr a gwblhaodd hyfforddiant ar-lein wedi cymryd cyfnod o absenoldeb rhiant yn ystod y cyfnod adrodd.

## Cwynion a Disgyblu

Mae'r data ar gyfer cwynion a disgyblu'n dangos nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt yn ôl nodwedd warchodedig yr unigolyn.

### Cwynion

| | | |
|---|---|---|
| Dim absenoldeb rhiant | 91% | 10 |
| Absenoldeb Rhiant | 9% | 1 |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **11** |

### Disgyblu

| | | |
|---|---|---|
| Dim absenoldeb rhiant | 100.0% | 10 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **10** |

## Cwynion a Disgyblu

Yn ystod y cyfnod adrodd eleni, cyflwynwyd 11 o gwynion a chynhaliwyd 10 achos disgyblu. Mae hyn yn cymharu ag 11 cwyn a 7 achos disgyblu a gynhaliwyd y llynedd.

O ran y cwynion, roedd un cydweithiwr wedi cymryd cyfnod o absenoldeb rhiant.

O ran achosion disgyblu, ni nodwyd dim gan y rhai a oedd wedi cymryd cyfnod o absenoldeb rhiant.

# Hil

## Cyfansoddiad Cydweithwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyn | | 82.6% | 3114 |
| Lleiafrif Ethnig | **Cyfanswm** | 14.5% | 548 |
| | Asiaidd | 4.9% | 184 |
| | Arall | 4.0% | 152 |
| | Tsieineaidd | 2.8% | 105 |
| | Cymysg | 1.6% | 60 |
| | Du | 1.2% | 47 |
| Dewis peidio â dweud | | 2.8% | 105 |
| Ddim yn gwybod | | 0.1% | 3 |
| **Cyfanswm** | | **100%** | **3770** |

## Cyfansoddiad Cydweithwyr

Canran ein cydweithwyr ethnig leiafrifol yw 14.5% eleni o'i chymharu â 13.5% y llynedd.

Mae canran y cydweithwyr ethnig leiafrifol yn y Brifysgol, 14.5%, ychydig yn is na meincnod y DU sef 17.5% ond mae'n uwch na meincnod Cymru sef 11% (Adroddiad Ystadegol AdvanceHE 2024).

Yr is-gategorïau ethnig leiafrifol mwyaf yw Asiaidd (4.9%) a grŵp ethnig arall (4.0%). Rydym yn uwch na meincnod Cymru ar gyfer pob is-gategori Ethnig Leiafrifol ac eithrio cymysg (1.6%) a du (1.2%) sydd ill dau'n debyg i feincnodau Cymru (1.6% ac 1.7% yn y drefn honno) (Adroddiad Ystadegol Advance HE 2024).

## Recriwtio

**Swyddi a hysbysebwyd = 553**

**Ceisiadau fesul Hil**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleiafrif Ethnig** | **Cyfanswm** | **48.8%** | **4774** |
| | Asiaidd | 26.8% | 2619 |
| | Du | 9.9% | 964 |
| | Ethnig arall | 5.9% | 577 |
| | Tsieineaidd | 4.7% | 464 |
| | Cymysg | 1.5% | 150 |
| **Gwyn** | | **47.2%** | **4617** |
| **Dewis peidio â dweud** | | **3.9%** | **382** |
| **Cyfanswm** | | **100%** | **9773** |

## Recriwtio

Mae nifer y swyddi a hysbysebwyd (553) wedi gostwng ers y llynedd (749) ac mae hyn o ganlyniad i raglen cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol. Mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi gostwng eleni (9773) o'i gymharu â'r nifer y llynedd (11304).

Am yr ail flwyddyn yn olynol, daw'r ganran uchaf o ymgeiswyr o gefndir ethnig leiafrifol. Cafwyd gostyngiad bach i 48.8% eleni o 49.9% y llynedd. Cafwyd ychydig llai o geisiadau gan ymgeiswyr gwyn eleni gan ostwng o 48% y llynedd i 47.2% eleni.

Mae cyfran y ceisiadau o bob grŵp ethnig lleiafrifol yn cymharu â'r llynedd.

## Cyfradd Lwyddiant Ymgeiswyr

**(yn eu grŵp eu hun)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwyn** | | **14.6%** | **673** |
| **Dewis peidio â dweud** | | **8.8%** | **30** |
| **Lleiafrif Ethnig** | **Cyfanswm** | **4.9%** | **232** |

## Cyfradd Lwyddiant Ymgeiswyr

Mae cyfradd gyffredinol ymgeiswyr wedi gostwng o 11.7% y llynedd i 9.6% eleni.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cymysg | 15.3% | 23 |
| | Ethnig arall | 6.9% | 40 |
| | Tsieineaidd | 6.0% | 28 |
| | Du | 5.6% | 54 |
| | Asiaidd | 3.3% | 87 |
| **Cyfanswm** | | **9.6%** | **935** |

**Cyfradd lwyddiant gyffredinol 9.6% (935)**

Gellir esbonio'r gyfradd lwyddiant is eleni gan y nifer is o swyddi gwag (26% yn llai na'r llynedd) a'r nifer is o geisiadau a dderbyniwyd (14% yn is na'r llynedd).

Cyfradd lwyddiant ymgeiswyr gwyn eleni yw 14.6%, ac mae wedi gostwng 4.8% eleni, o 19.4% y llynedd.

Cyfradd lwyddiant ymgeiswyr o grwpiau ethnig leiafrifol eleni yw 4.9% ac mae wedi gostwng ychydig ers y llynedd (5.6%).

Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfradd lwyddiant ymgeiswyr o gefndir ethnig leiafrifol ac ymgeiswyr gwyn wedi gostwng i 9.7% eleni, (o'i gymharu ag 13.8% y llynedd) ac roedd 14.6% o ymgeiswyr gwyn yn llwyddiannus, o'i gymharu â 4.9% o ymgeiswyr ethnig leiafrifol. Byddwn yn parhau i fonitro'r data hwn ac mae sawl cam gweithredu yn ein cynllun gweithredu Siarter Hil i leihau'r bwlch hwn ymhellach.

Pan edrychwn ar ddadansoddiad o'r is-gategorïau, gallwn weld bod cyfradd lwyddiant ymgeiswyr ethnig leiafrifol wedi cynyddu o 8% y llynedd i 15.3% eleni. Mae gan yr holl is-gategorïau eraill gyfradd lwyddiant is na chydweithwyr gwyn. Mae cyfradd lwyddiant ymgeiswyr ethnig eraill (6.9%), Tsieineaidd (6%) Du (5.6%) ac Asiaidd (3.3%), wedi gostwng ers y llynedd (8%), (7%), (7%) a (4.3%) yn eu trefn.

Rydym wedi nodi hyn fel maes blaenoriaeth ac yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal dadansoddiad data arall i gymryd camau gweithredu priodol gyda'r nod o leihau'r bwlch yn y gyfradd lwyddiant rhwng ymgeiswyr ethnig leiafrifol ac ymgeiswyr gwyn. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud drwy ein Cynllun Gweithredu Siarter Hil.

Yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd, cyflwynodd AD ddull recriwtio newydd ar sail CV ym mis Tachwedd 2023, a byddwn yn adolygu effaith y broses recriwtio hon y flwyddyn nesaf.

## Ymadawyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyn | | 78.2% | 609 |
| Lleiafrif Ethnig | Cyfanswm | 17.3% | 135 |
| | Asiaidd | 8.1% | 63 |
| | Du | 3.0% | 23 |
| | Arall | 2.8% | 22 |
| | Tsieineaidd | 2.1% | 16 |
| | Cymysg | 1.4% | 11 |

## Ymadawyr

Mae nifer yr ymadawyr wedi cynyddu ychydig, o 765 y llynedd i 779 eleni.

Mae canran yr ymadawyr ethnig leiafrifol (17.3%) yn is o'i chymharu â'r llynedd sef 23%. Mae'n uwch na'n cronfa gyffredinol o gydweithwyr ethnig leiafrifol, sef 14.5%.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dewis peidio â dweud | | 4.5% | 35 |
| **Cyfanswm** | | **100.%** | **779** |

Gallwn briodoli rhan o'r cynnydd hwn mewn ymadawyr ethnig leiafrifol i'r ffaith y bu gan 14% o'r ymadawyr rolau gweithredu'r llinell gymorth Clirio, ac roedd gan 19% rolau sy'n gysylltiedig ag ymchwil a oedd yn benodiadau tymor byr. Mae hyn yn dangos y bu gan o leiaf 33% o'r ymadawyr ethnig leiafrifol rolau i fyfyrwyr neu rolau'n gysylltiedig ag ymchwil.

## Hyfforddiant

**Cyrsiau mewn ystafell ddosbarth = 343**

## Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwyn** | | **84.8%** | **2438** |
| **Lleiafrif Ethnig** | **Cyfanswm** | **12.5%** | **360** |
| | Arall | 4.0% | 114 |
| | Asiaidd | 3.8% | 110 |
| | Tsieineaidd | 1.9% | 56 |
| | Cymysg | 1.6% | 45 |
| | Du | 1.2% | 35 |
| **Dewis peidio â dweud** | **Cyfanswm** | **2.7%** | **77** |
| **Cyfanswm** | | **100%** | **2875** |

## Hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth

Mae nifer y cyrsiau mewn ystafell ddosbarth (343) wedi gostwng yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â'r nifer y llynedd (430).

Mae nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth wedi gostwng eleni i 2875, o'i gymharu â'r nifer y llynedd (4493).

Mae'r gostyngiad yn nifer y cyfranogwyr mewn ystafell ddosbarth o ganlyniad i sawl ffactor, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y cyrsiau ac ailgynllunio'r Gwasanaethau Proffesiynol.

